

PALASU HWY

**SUT I GWBLHAU
ASESIAD RISG**



SUT I GWBLHAU ASESIAD RISG

Defnyddiwch [dempled](#) Asesiad Risg Palasau Hwyl
(sydd hefyd yn y pecyn cymorth)

Mae angen diwygio pob adran mewn **coch** ar eich templed ar gyfer eich prosiect, digwyddiad neu weithgaredd.

Mae asesiad risg yn bodoli i ddangos eich bod wedi ystyried y risgiau posib sy'n gysylltiedig â'ch gweithgaredd a cheisio dileu neu isafu nhw gorau ag y gallwch. Mae cwblhau'r asesiad yn ymarfer defnyddiol i feddwl trwy unrhyw broblemau a allai godi ac mae hefyd yn ddogfen bwysig os aiff unrhyw beth o chwith - synnwyr cyffredin ydyw yn y bôn!

Gweithgaredd – Dyma unrhyw beth rydych yn ei wneud a allai achosi risg. Meddylwch drwy bopeth y byddwch yn ei wneud ac unrhyw beth sydd â'r potensial i achosi niwed. E.e.: *anifeiliaid byw, plant heb eu goruchwyllo, gweithio ar uchder, gweithdai crefftau gydag offer, diwrnod gwaith hir...*

Peryglon – Dyma'r niwed penodol a allai ddigwydd. E.e.: *blinder, cam-gyfathrebu cyfarwyddiadau, anaf, mewnanadlu mydgarth...*

Pobl sy'n wynebu'r risg – Dyma'r rhai a allai gael eu niweidio. E.e.: *cynulleidfa, perfformwyr, y cyhoedd, criw, pobl sy'n cerdded heibio...*

Y risg cyn y mesurau rheoli – Dyma'r sefyllfa waethaf sy'n bosib. Mae'r allwedd o dan y templed yn dangos sut i raddio'r difrifoldeb a'r tebygolrwydd. Y drydedd golofn yw difrifoldeb x tebygolrwydd. Mae'r categorïau graddio risg yn dangos pan fydd yn rhaid rhoi mesurau rheoli ar waith a phan na dylid bwrw ymlaen gyda'r gweithgaredd.

Mesurau rheoli – Dyma'r hyn y byddwch yn ei roi ar waith i ddileu neu isafu'r risg. Dylech bob amser weithio i lawr y rhestr o fesurau rheoli, gan ddechrau trwy geisio dileu'r risg yn gyfan gwbl. Cofiwch y daw arwyddion o dan ddisgyblaeth a gorfodi ac felly dyna'r unig ddewis sy'n weddill os nad oes unrhyw ffordd arall o isafu'r risg.

E.e.: *Bydd yr holl staff wedi cael eu briffio ar drin gyfarpar yn ddiogel, bydd yr holl staff wedi cael gwiriadau DBS manwl, bydd gwaith awyr agored yn gorffen cyn yr aiff yn dywyll...*

Risg weddilliol ar ôl y mesurau rheoli – Yn ôl eich asesiad dyma'r risg sy'n bodoli ar ôl i'r mesurau rheoli gael eu rhoi ar waith.

PALASU HWY

Mesurau Rheoli Ychwanegol – Monitro ac adolygu yw hyn yn bennaf, os bydd angen. Mae asesiad risg deinamig yn asesiad yn y fan a'r lle a gyflawnir gennych chi gydag aelodau tîm eraill, a gall olygu y bydd newidiadau'n cael eu gwneud. Dylai unrhyw fesurau rheoli ychwanegol a ddefnyddir gael eu hychwanegu at yr asesiad risg wedyn fel cofnod o'r hyn a wnaed.

Perchennog – Dyma'r unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol am roi'r mesurau rheoli ar waith a gwirio bod yr asesiad risg yn cael ei ddilyn. Gwneir hyn fel arfer gyda llythrennau cyntaf enwau yn hytrach na theitlau swydd er mwyn bod yn hollol glir. Mae'n rhaid cylchredeg yr asesiad risg i bawb sydd wedi'u rhestru fel perchnogion ar y ffurflen fel eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb.